

# Y PARCHEDIG WILLIAM HUGHES A SEFYDLIAD Y CONGO

**Adnodd Dysgu CA2**

Cafodd yr adnodd hwn ei greu yn 2021 ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n seiliedig ar adnoddau amgueddfeydd ac archifau sy'n cael eu cadw yng Nghanolfan Diwylliant Conwy.

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gefnogi ysgolion yn eu gofyniad i archwilio busnesau, diwylliannau, hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau a chymdeithasau Cymru.

Mae'r gweithgareddau'n drawsgwricwlaidd gydag awgrymiadau o Ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig o AOLEau. Gall athrawon fireinio pob gweithgaredd er mwyn cyrraedd lefelau cynnydd priodol ar gyfer eu disgyblion.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND
CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY CULTURE CENTRE
Dychmygu | Imagine Bae Colwyn

# CYNNWYS

Edrych ar y Parchedig William Hughes ..... 2

Edrych ar 'Tŷ Congo' Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn ..... 4

Myfyrwyr o Affrica a'u gwaith ..... 6

Atodiad A – Cwestiynau Arsylwi ..... 8

Atodiad A – Atebion ..... 9

Atodiad B – Adeiladau ym Mae Colwyn ..... 10

Atodiad C – Adnodd: Directions / Gorchmynion ..... 11

Atodiad D – Bingo Geirfa Adnoddau! ..... 12

Atodiad E – Amserlen Tŷ Congo ..... 13

Adnoddau Eraill ..... 14

# Edrych ar y Parchedig William Hughes

| Mae rhagor o wybodaeth i athrawon a fideo i athrawon ei ddefnyddio ar gael yma:<br><br>https://colwynbayheritage.org.uk/the-remarkable-reverend-william-hughes-and-the-african-institute/<br><br>Forgotten history: The black missionaries of Colwyn Bay - BBC News<br><br>**Nid yw'n syniad da i ddisgyblion CA2 ddefnyddio'r gwefannau hyn ar gyfer eu hymchwil eu hunain.** | **AOLE** | **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig** |
|---|---|---|
| Ar ôl gwylio'r ffilm, gwyliwch eto i ddod o hyd i'r atebion i Atodiad A.<br><br>Dewch o hyd i'r ystyr, ac ymarfer dweud yr eirfa yn Atodiad D ac yna chwarae bingo wrth i chi glywed y geiriau yn y ffilm.<br><br>(fersiynau 9 a16 gair ar gael) | Ieithoedd a Llythrennedd | **Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.** |
| Defnyddiwch y llinell amser Atodiad E i gasglu gwybodaeth am Dŷ Congo.<br><br>Allwch chi ychwanegu rhagor o fanylion o wylio'r ffilm, creu llinell amser yn eich geiriau eich hun, creu poster ffeithiau neu adroddiad newyddion am hanes Tŷ Congo gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffilm a'r llinell amser?<br><br>Gan ddefnyddio ffeithiau o'r ffilm a'r llinell amser, dylech greu cyfweliad am Dŷ Congo.  Gweithiwch mewn parau, gydag un person yn cyfweld ac un person yn chwarae rhan Y Parchedig William Hughes, neu berson lleol arall yn siarad amdano. Cynlluniwch y gweithgaredd gyda'ch | Dyniaethau<br><br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br><br>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | **Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, y presennol a'r dyfodol.**<br><br>**Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.**<br><br>**Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu** |

| | | |
|---|---|---|
| gilydd, lluniwch sgript, yna perfformio/cofnodi'r cyfweliad. | | |
| Doedd Hughes ddim yn hoffi'r ffordd roedd pobl y Congo yn cael eu trin gan rai o'r cenhadwyr. Roedd hefyd yn ei chael yn anodd gweithio yn yr hinsawdd a daeth â myfyrwyr i Gymru yn y pen draw. Meddyliwch am fywyd yn y Congo bryd hynny a nawr – rhagfarn cymdeithas oes Fictoria, gwthio moesau gwyn a Christnogol Ewrop ar ddiwylliant arall. Ystyriwch y broses o dderbyn y myfyrwyr yn y Bae a rhannu diwylliant drwy ganeuon a cherddoriaeth. Archwiliwch a thrafod pam mae gwarchod ein diwylliant a'n hunaniaeth ein hunain yn bwysig. | Dyniaethau<br><br>Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | **Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau pobl.**<br><br>**Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu** |
| Crëwch a chyflwyno eich cyflwyniad eich hun am ddigwyddiadau allweddol bywyd Hughes a rhai o'i brif lwyddiannau. | Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu** |
| Roedd Hughes yn credu'n gryf mewn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ac roedd yn rhan bwysig o berswadio'r pwyllgor i gynnal Eisteddfod Genedlaethol 1910 ym Mae Colwyn ar safle'r Sw erbyn hyn. Beth am gynnal Eisteddfod dosbarth drwy greu eich celfyddyd, eich barddoniaeth a'ch cerddoriaeth eich hun ar gyfer yr ŵyl. | Celfyddydau Mynegiannol | **Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.** |
| Benthycwch y blwch trafod 'Gwyliau' a defnyddio eitemau i drafod sut byddai dod i'r ardal mor wahanol i Affrica. Chwaraewch gêm lle mae eitem yn cael ei dewis a rhaid i'r disgyblion ddisgrifio beth ydyw i rywun sydd erioed wedi'i gweld o'r blaen. | Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu** |

# EDRYCH AR 'TŶ CONGO' SEFYDLIAD AFFRICANAIDD BAE COLWYN

Sefydliad hyfforddi plant Affricanaidd, lle dysgwyd crefftau, iaith ac addysg mewn Cristnogaeth.

| I gael gwybodaeth i athrawon a lluniau o Dŷ Congo gweler y gwefannau hyn: https://colwynbayheritage.org.uk/the-congo-institute/<br><br>https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41777209<br><br>**Rhaid i athrawon edrych ar y safleoedd yn ofalus i weld a ydynt yn addas cyn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio'r safleoedd ar gyfer ymchwil.** | **AOLE** | **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig** |
|---|---|---|
| Gan ddefnyddio map o Fae Colwyn, naill ai ar bapur neu'n ddigidol e.e. mapiau google, plotiwch leoliad rhai o'r adeiladau y byddai myfyrwyr Tŷ Congo wedi'u gweld, y gallwn eu gweld heddiw o hyd. E.e. adeilad Tŷ Congo, Powlsons, yr adeilad sydd bellach yn fanc y Natwest ac yn llyfrgell Bae Colwyn. I gael rhagor o ddelweddau a syniadau, edrychwch ar Atodiad B. | Dyniaethau | **Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, y presennol a'r dyfodol.** |
| Defnyddiwch yr adnodd yn Atodiad C i ymarfer rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg. Defnyddiwch olwg stryd neu fapiau lleol i gynllunio'r llwybr ac i gyfeirio partner, neu i gyfarwyddo corlun, gan ddefnyddio codio syml. Gellir troi J2E ar Hwb i'r Gymraeg i ymarfer rhai o'r eirfa yn Atodiad C. | Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br><br>Gwyddoniaeth a thechnoleg | **Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.**<br><br>**Cyfrifiadureg yw sylfaen ein byd digidol.** |
| Creu hysbyseb ar gyfer y Sefydliad Hyfforddi Affricanaidd. Bu'n rhaid i fyfyrwyr deithio ymhell oddi wrth eu teulu. Perswadio myfyrwyr a theuluoedd drwy'r hysbyseb bod dod i ddysgu sgiliau newydd yng Nghymru yn beth da i'w wneud. | Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.** |
| Archwiliwch rywfaint o gelf a chrefft Affricanaidd, a'i gymharu â chelf a chrefft traddodiadol Cymru. Roedd y Parchedig | Celfyddydau Mynegiannol | **Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| Hughes yn awyddus i ganiatáu i'w fyfyrwyr gynnal eu diwylliant a'u traddodiadau Affricanaidd a dathlu amrywiaeth. Creu gwaith celf yn arddull celf Affricanaidd. Creu oriel waith i ddathlu diwylliant Cymru ac Affrica. | | **artistig ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.** |
| Cynhaliodd y Parch Hughes bartïon gardd a ffeiriau i arddangos crefft Cymru ac Affrica i godi arian i'r sefydliad. Creu crefftau i'w gwerthu mewn ffair ysgol a dweud stori'r sefydliad.<br><br>Cyllidebu'r adnoddau sydd eu hangen a chyfrifo pris yn unol â hynny. | Celfyddydau Mynegiannol<br><br>Mathemateg a Rhifedd | **Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.**<br><br>**Defnyddir y system rhifau i gynrychioli a chymharu'r berthynas rhwng rhifau a niferoedd.** |
| Dysgwyd sgiliau i'r myfyrwyr ar gyfer gwahanol yrfaoedd ac aeth rhai ymlaen i'r brifysgol. Archwiliwch y gyrfaoedd y mae gan ddisgyblion ddiddordeb ynddynt, edrychwch ar gyrsiau coleg sydd ar gael yn yr ardal yn ogystal â chyrsiau mewn prifysgolion cyfagos. Chwiliwch am gyrsiau gyda'ch gilydd nad oedd y disgyblion yn gwybod eu bod yn bodoli. | Dyniaethau | **Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.** |

# MYFYRWYR O AFFRICA A'U GWAITH

| | | |
|---|---|---|
| Mae rhagor o wybodaeth i athrawon am fyfyrwyr ar gael yma: [Forgotten history: The black missionaries of Colwyn Bay - BBC News]<br><br>**Rhaid i athrawon edrych ar y safleoedd yn ofalus i weld a ydynt yn addas cyn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio'r safleoedd ar gyfer ymchwil.** | | |
| Ymchwiliwch i'r bwydydd / Bae Colwyn / ffordd o fyw yn ystod oes Fictoria a defnyddiwch hyn i greu cofnodion dyddiadur fel pe baech yn fyfyriwr yn Nhŷ Congo. Wythnos ym mywyd myfyriwr – ymweld â Bae Colwyn am y tro cyntaf.  Ysgrifennwch hwn fel dyddiadur:<br><br>e.e. Diwrnod 1: Disgrifio'r golygfeydd a'r synau. Diwrnod 2: Pobl a dillad. Diwrnod 3: Disgrifio'r bwyd. Diwrnod 4: Tymheredd / tywydd. Diwrnod 5: Mewn i'r dref – siopau a chludiant y pryd. | Leithoedd, Llythrennedd a<br><br>Dyniaethau | **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.**<br><br>**Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.** |
| Nkansa a Kinkassa oedd y ddau fyfyriwr cyntaf i ddod i Gymru gyda'r Parchedig Hughes.  Roedd y ddau ohonyn nhw'n ifanc pan wnaethon nhw symud i wlad wahanol, oddi wrth eu teulu.  Ysgrifennwch gerdyn post gartref, fel un o'r myfyrwyr hyn, neu greu sgript ar gyfer sgwrs ffôn rhwng un o'r myfyrwyr ac aelod o'r teulu yn ôl adref.<br><br>Beth allai'r myfyrwyr hyn ei ddweud wrth fyfyrwyr newydd sy'n cyrraedd Bae Colwyn?  Lluniwch restr o awgrymiadau defnyddiol y gallen nhw eu rhoi i fyfyrwyr newydd e.e. gwisgwch lawer o haenau – mae'n oerach yma nag y byddech chi erioed yn ei ddychmygu! | Leithoedd, Llythrennedd a<br><br>Dyniaethau | **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.**<br><br>**Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.** |

| | | |
|---|---|---|
| Byd gwaith. Roedd gan Dŷ Congo ei gwmni argraffu ei hun a oedd yn gwneud gwaith masnachol. Dysgodd y myfyrwyr grefft i fynd yn ôl i Affrica gyda nhw. Aeth rhai ymlaen i'r brifysgol a dod yn feddygon, athrawon a nyrsys. Creu rhifyn o'r papur newydd, neu bapur newydd dosbarth. Ystyriwch rolau gwahanol: awduron, ffotograffwyr, golygyddion.<br><br>Ar ôl astudio yn y sefydliad Affricanaidd, aeth un myfyriwr, Davidson Don Tengo Jabavu, i Goleg Prifysgol Llundain a Birmingham. Pan ddychwelodd i Affrica, sefydlodd Goleg Brodorol De Affrica yn Fort Hare yn Cape Province. Bu hyd yn oed yn dysgu Nelson Mandela yno! | Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.** |
| Cymharwch yr hinsawdd rhwng y Congo a Bae Colwyn e.e. graffiau tymheredd, glawiad, golau dydd, parthau amser. | Mathemateg a Rhifedd | **Defnyddir y system rhifau i gynrychioli a chymharu'r berthynas rhwng rhifau a niferoedd.** |
| Cymharu gwahanol nodweddion daearyddol y gwledydd, e.e. afonydd, anialwch, mynyddoedd. | Dyniaethau | **Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, gyda phrosesau a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.** |
| Cymharwch fywyd gwyllt, anifeiliaid a bywyd planhigion rhwng y Congo, neu ran wahanol o Affrica, a Bae Colwyn. Defnyddiwch luniau i gymharu lliwiau, anifeiliaid / bywyd planhigion a defnyddiwch y rhain i wneud collage o bob gwlad. | Dyniaethau | **Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, gyda phrosesau a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.** |

## ATODIAD A – CWESTIYNAU ARSYLWI

Allwch chi ateb y cwestiynau hyn ar ôl gwylio’r fideo?

1. Beth mae Vickie yn ei ddefnyddio i ddal y data, er mwyn atal y feirws rhag lledaenu?
2. Ym mha flwyddyn y dechreuodd y Parchedig Hughes ddod â myfyrwyr i Dŷ Congo?
3. Daniel Harvey oedd un o brentisiaid cyntaf Tŷ Congo. Pa sgil a ddysgodd?
4. Ar ba ddyddiad y dechreuodd Powlsons yr Argraffwyr argraffu o’u siop bresennol?
5. Beth oedd enw’r papur newydd a argraffwyd gan y myfyrwyr?
6. Am faint o amser y bu’r myfyrwyr yn aros yn Nhŷ Congo fel arfer?
7. Daeth un o fyfyrwyr Tŷ Congo yn athro a dysgodd un o arwyr mwyaf adnabyddus y byd. Pwy wnaeth ddysgu?
8. Ym mhle y llwyddodd y Parchedig Hughes i gynnal yr Eisteddfod?
9. Beth wnaeth y Parch Hughes i godi arian i Dŷ Congo?
10. A oedd y sw yn bodoli yn 1910?

# ATODIAD A – ATEBION

1. Beth mae Vickie yn ei ddefnyddio i ddal y data, er mwyn atal y feirws rhag lledaenu?

   iPad

2. Ym mha flwyddyn y dechreuodd y Parchedig Hughes ddod â myfyrwyr i Dŷ Congo?

   1890

3. Daniel Harvey oedd un o brentisiaid cyntaf Tŷ Congo.  Pa sgil a ddysgodd?

   Saernïaeth

4. Ar ba ddyddiad y dechreuodd Powlsons yr Argraffwyr argraffu o'u siop bresennol?

   1910

5. Beth oedd enw'r papur newydd a argraffwyd gan y myfyrwyr?

   The Colwyn Bay Times

6. Am faint o amser y bu'r myfyrwyr yn aros yn Nhŷ Congo fel arfer?

   3 mlynedd

7. Daeth un o fyfyrwyr Tŷ Congo yn athro a dysgodd un o arwyr mwyaf adnabyddus y byd.  Pwy wnaeth ddysgu?

   Nelson Mandela

8. Ym mhle y llwyddodd y Parchedig Hughes i gynnal yr Eisteddfod?

   Y sw

9. Beth wnaeth y Parch Hughes i godi arian i Dŷ Congo?

   Cynnal ffeiriau haf i ddangos diwylliant Cymru ac Affrica

10. A oedd y sw yn bodoli yn 1910?

    Na, fe'i hadwaenid bryd hynny fel gerddi Flagstaff

# ATODIAD B – ADEILADAU YM MAE COLWYN

Dyma rai o'r llefydd yr oedd myfyrwyr yn cael eu hyfforddi neu yn gweithio ynddynt ym Mae Colwyn.

A allwch ddod o hyd iddynt ar fapiau, canfod sut yr oeddent yn edrych yn oes Fictoria, rhoi cyfarwyddiadau dwyieithog i fyfyrwyr sy'n ceisio dod o hyd iddynt, edrych ar y bensaernïaeth, ymchwilio i sut y mae defnyddiau'r adeilad wedi newid?





Adeilad Sefydliad Hyfforddi Affrica – Tŷ Congo, bryd hynny a nawr.



Llyfrgell Bae Colwyn heddiw



Argraffwyr Powlsons heddiw

Cofiwch am gerrig yr Eisteddfod, lle mae Sw Mynydd Cymru nawr.

## ATODIAD C – ADNODD: DIRECTIONS / GORCHMYNION

| | |
|---|---|
| **Esgusodwch fi! -** | **- Excuse me** |
| **Alla i eich helpu? -** | **- Can I help you?** |
| **Beth ydy'r ffordd i'r…?** | **- What is the way to the….?** |

| | |
|---|---|
| **Trowch i'r chwith -** | **- Turn right** |
| **Trowch i'r dde** | **- Turn left** |
| **Ewch syth ymlaen -** | **- Go straight ahead** |

| | |
|---|---|
| **Rhwng - -** | **– between** |
| **Near - - -** | **– agos** |
| **Ar ôl - - -** | **– after** |
| **Cyn - - -** | **– before** |
| **Ty ôl - - -** | **– behind** |
| **O flaen - -** | **– in front of** |

| | |
|---|---|
| **y goleuadau traffig -** | **– the traffic lights** |
| **yr orsaf - -** | **– the station** |
| **yr ysbyty - -** | **– the hospital** |
| **yr eglwys - -** | **– the church** |
| **yr ysgol - -** | **– the school** |

## ATODIAD D – BINGO GEIRFA ADNODDAU!

| | | |
|---|---|---|
| tŷ | dref | gwaith |
| crefft | dysgu | gweithio |
| busnes | sgiliau | papur newydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| teithio | dysgu | sgiliau | diwylliant |
| gweithio | busnes | dychwelyd | dref |
| diddorol | prifysgol | tŷ | gwaith |
| iaith | papur newydd | crefft | gorffenol |

# ATODIAD E – AMSERLEN TŶ CONGO

1856 – Ganed y Parchedig William Hughes.

1882 – Dechreuodd y Parchedig William Hughes bregethu yn y Congo. Yn oes Fictoria, byddai cenhadwyr yn teithio'r byd, gan ledaenu dysgeidiaeth Cristnogaeth a diwylliant Prydain. Roedd cenhadon mewn perygl o fynd yn sâl oherwydd bod gan wahanol wledydd glefydau gwahanol nad yw ymwelwyr wedi datblygu imiwnedd ar eu cyfer.

1885 – Daeth y Parchedig William Hughes yn ôl i Ogledd Cymru, gyda dau fyfyriwr: **Kinkasa a Nkansa.** Rhoesant ddarlithoedd mewn gwahanol ieithoedd am y Congo a gwerthu luniau i godi arian i ddechrau ei ysgol.

1887 - Roedd y Parchedig William Hughes, ei wraig a dau fyfyriwr wedi setlo ym Mae Colwyn.

1890 - Agorwyd y Sefydliad Hyfforddi Affricanaidd, a elwir yn lleol fel Tŷ Congo. Dysgodd y Gymraeg a'r Saesneg i fyfyrwyr yn ogystal â sgiliau academaidd ac ymarferol. Yn hytrach na cheisio gwneud myfyrwyr Affrica yn fwy 'Prydeinig', roedd y sefydliad am roi sgiliau newydd i'w fyfyrwyr er mwyn ychwanegu at eu sgiliau a'u hieithoedd Affricanaidd. Cafodd gwahaniaethau mewn diwylliant eu dathlu a'u hannog – gan gynnwys celf, cerddoriaeth ac ieithoedd. Y syniad oedd helpu gwledydd Affrica i gadw eu traddodiadau, eu hieithoedd a'u diwylliannau.

1903 – Roedd dros 20 o fyfyrwyr o wledydd Affricanaidd yn astudio yn y Sefydliad. Yn anffodus, oherwydd gwahanol glefydau mewn gwahanol wledydd, aeth rhai o'r myfyrwyr a ddaeth i Gymru'n sâl iawn a bu farw rhai hyd yn oed. Cawsant eu claddu ym mynwent Bae Colwyn. Roedd Tŷ Congo yn dibynnu ar elusen i oroesi. Daeth hyn o roddion, digwyddiadau, ysgrifennu llyfr, sgyrsiau a digwyddiadau cymdeithasol eraill. Hefyd, mentrodd Hughes rywfaint yn y maes eiddo, ond ni thalodd hynny iddo.

1910 – Gwnaeth y Parchedig Hughes yn siŵr bod Eisteddfod yn cael ei chynnal yn lleol. Dyma lle mae'r Sŵ nawr.

1912 – Gorfodwyd y Sefydliad i gau. Roedd hyn oherwydd diffyg arian a daeth y Parchedig William Hughes yn fethdalwr. Yn ystod ei 22 mlynedd o hyfforddiant, bu dros gant o fyfyrwyr yn hyfforddi yn y sefydliad, mewn ystod eang o bynciau academaidd a sgiliau ymarferol. Dychwelodd rhai myfyrwyr adref i ddefnyddio'u sgiliau fel meddygon, nyrsys, seiri coed neu gyfreithwyr, ac arhosodd rhai ohonynt yn y DU.

1924 – Bu farw y Parchedig William Hughes. Mae wedi'i gladdu ym mynwent Bae Colwyn, gyda'r myfyrwyr a fu farw yn agos ato.

# ADNODDAU ERAILL

## Dolenni Defnyddiol:

Forgotten history: The black missionaries of Colwyn Bay - BBC News

Scandal at Congo House - Grwp Treftadaeth Bae Colwyn

Sefydliad y Congo - Grwp Treftadaeth Bae Colwyn

jeffreygreen.co.uk/colwyn-bays-african-institute-1889-1912

Ysgol St Joseff Cyfweliad gyda Dr Marian Gwyn

Llythyrau Gartref Proseict Ysgol St Joseff

https://www.facebook.com/congo.house.colwyn.bay

Chwilio'r Archifau

www.llwybrdychmygu.com

## Darllen Pellach

Scandal at Congo House gan Christopher Draper & John Lawson-Reay.

Copïau ar gael i'w benthyg gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Conwy

## Delio â chasgliadau

Mae casgliadau o wrthrychau thematig ar gael i'w benthyg gan Ganolfan Ddiwylliant Conwy. Gellir eu defnyddio i annog trafodaeth. Gellir benthyg y blychau gyda cherdyn llyfrgell. Cysylltwch â'r llyfrgell i drefnu'r casglu ar 01492 576089 / llyfrgell.conwy.conwy.gov.uk

## Adborth

Croesewir adborth ar y pecyn gweithgaredd hwn, yn ogystal ag unrhyw adnoddau ychwanegol y gallwn eu defnyddio i'w ddiweddaru. Anfonwch e-bost at: diwylliant.culture@conwy.gov.uk